**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Mawrth 2020

Annwyl Elin,

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 ("y Gorchymyn")**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 para 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn wedi'i atodi er gwybodaeth ichi.

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn yn mewnosod Rhan 12A newydd yn Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y prif Orchymyn"). Lle mae datblygiad yn gydnaws â thelerau'r prif Orchymyn, mae'r prif Orchymyn yn darparu caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac nid oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Nod y Gorchymyn yw galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu at ddibenion penodol ar eu tir mewn argyfwng, yn unol â Rhan 12A. At y dibenion hyn, ystyr argyfwng yw digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth gwneud niwed difrifol i les pobl mewn lle yn y Deyrnas Unedig.

Y datblygu a ganiateir yw datblygu at ddibenion—

(a) atal argyfwng;
(b) lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng; neu
(c) cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.

Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 12A newydd. Mae un amod yn nodi bod yn rhaid i'r datblygwr roi'r gorau i ddefnyddio'r tir at ddibenion yr argyfwng pan ddaw'r cyfnod o 12 mis ar ôl dechrau'r gwaith i ben, neu cyn

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 20823936
@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

hynny, bod yn rhaid symud strwythurau a pheiriannau ac ati, a bod yn rhaid adfer y tir i'w gyflwr blaenorol (neu i gyflwr y cytunir arno).

Mae'n ofynnol i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio eu tir at ddiben gwaith datblygu yn unol â Rhan 12A. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, fod modd defnyddio adeiladau fel canolfannau hamdden at ddiben gofal ysbyty. Os na ddaw'r Gorchymyn i rym, bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn cyflawni gwaith datblygu o'r fath. Nod y Gorchymyn yw osgoi'r oedi anochel y byddai'r broses o wneud a phrosesu ceisiadau o'r fath yn ei olygu. Yng ngoleuni'r amgylchiadau o ran COVID-19, sy'n perthyn i gategori "argyfwng" at ddibenion y Gorchymyn, ac yn benodol y ffaith bod y sefyllfa yn datblygu mor gyflym, ystyrir nad oes angen na chyfiawnhad dros lynu at y rheol 21 diwrnod yn yr achos hwn.

Yn sgil natur frys y Gorchymyn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad arno. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i lunio, ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau; a Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd